**Bwrdd Trafnidiaeth Cymru**

**Cofnodion cyfarfod 16 Ebrill 2026**

**Cynhaliwyd yn Llys Cadwyn, Pontypridd**

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | |
| Vernon Everitt | Aelod Anweithredol a Chadeirydd |
| Heather Clash | Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Rhian Langham | Aelod anweithredol |
| Vinay Parmar | Aelod anweithredol |
| James Price | Prif Swyddog Gweithredol |
| Marcia Sinfield | Aelod anweithredol |
| Peter Strachan | Aelod anweithredol |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Sam Hadley | Cyfarwyddwr Polisi |
| Peter McDonald | Arsylwr (Llywodraeth Cymru) |
| Jeremy Morgan | Pennaeth Cydymffurfio a Llywodraethu Corfforaethol |
| Ceri Taylor | Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| Lorenzo Visentin | Cyfarwyddwr Diogelwch a Risg (eitemau 1 i 3) |
| Elle Elliott | Cyfarwyddwr Gweithredol Pobl a Diwylliant (eitem 6) |
| Paul Chase | Rheolwr Dadansoddi Trafnidiaeth Strategol (eitem 9) |
| Ben George | Pennaeth Trafnidiaeth Ranbarthol (eitem 9) |
| Geoff Ogden | Prif Swyddog Cynllunio a Datblygu Trafnidiaeth (eitemau 7 i 9) |
| Lee Robinson | Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Trafnidiaeth Ranbarthol ac Integreiddio (eitem 9) |

## 1. Croeso, ymddiheuriadau, cworwm, datganiadau a chofnodion blaenorol

Ymunodd Vernon Everitt â'r cyfarfod ar-lein gan nad oedd yn gallu teithio am resymau iechyd. Gofynnodd i Rhian Langham gadeirio'r cyfarfod yn ei le. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod, croesawodd bawb a oedd yn bresennol a dymunodd wellhad buan i Vernon Everitt. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ian Lucas.

Gan fod cworwm, cyhoeddodd y Cadeirydd fod y cyfarfod yn agored.

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd TrC a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2026 yn gofnod cywir. Nododd y Bwrdd y log camau gweithredu a chafwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ar ddau gam gweithredu agored.

**2. Sylw i ddiogelwch a chwsmeriaid**
Myfyriodd y Bwrdd ar brofiad diweddar aelod o'r Bwrdd ar awyren a'r angen i sicrhau, pan fydd cwsmeriaid yn talu am docyn Dosbarth Cyntaf, eu bod yn cael gwasanaeth dosbarth cyntaf.

Trafododd y Bwrdd hefyd yr angen i ddefnyddio data i ddeall achosion sylfaenol cwynion cwsmeriaid ynghylch canslo rhai gwasanaethau premiwm â thâl a weithredir gan TrC **[Cam gweithredu Lewis Brencher]**, ac i symud o ddata i wybodaeth a gweithredu.

**3. Perfformiad diogelwch**
Ymunodd Lorenzo Visentin â'r cyfarfod gan gyflwyno'r adroddiad ar berfformiad diogelwch. Nododd y Bwrdd y perfformiad cadarnhaol ar y cyfan a diolchodd i'r tîm. Nodwyd y canlynol gan y Bwrdd:

- Mae digwyddiadau'n ymwneud â'r gweithlu a digwyddiadau nad ydynt yn ymwneud â'r gweithlu wedi gostwng ers y cyfnod blaenorol ac yn erbyn y lefelau a ragwelwyd. Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau Pasio Signalau Stop, ond roedd cynnydd yn y galw am ddefnydd brêc y System Rybuddio ar gyfer Diogelu Trenau. Ar ôl i'r cyfnod adrodd ar gyfer y Bwrdd dod i ben, roedd yna achos Pasio Signalau Stop diweddar ger Casnewydd, sef y cyntaf ers canol mis Chwefror.
- Roedd 16 ymosodiad, ac roedd pedwar ohonynt yn cynnwys poeri. Mae'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi darparu cefnogaeth dda ac effeithiol. Nododd y Bwrdd fod patrolau aml-asiantaeth ar reilffordd Treherbert ar y gweill, a bod rhaglen ymchwil pum mis gan Brifysgol Caergrawnt/RDG/TrC ar amlder uwch o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn dechrau ar 20 Ebrill mewn 18 gorsaf ar draws rhwydwaith TrC. Gofynnodd y Bwrdd am ddiweddariad pan fydd ar gael **[Cam gweithredu Lorenzo Visentin]**.
- Mae chwech o bobl wedi cael eu harestio am y digwyddiad diweddar yng ngorsaf Dinbych-y-pysgod a oedd yn ymwneud â thua 100 o bobl ifanc. Darparwyd cefnogaeth effeithiol gan Heddlu Dyfed Powys a'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig.
- Mae sgoriau telemateg Traws yn parhau i fod yn 'wyrdd' ac o fewn y meincnod cenedlaethol. Croesawodd y Bwrdd y data ychwanegol a ddarparwyd ac anogodd y defnydd ohono ar hyd y rhwydwaith o dan fasnachfreinio bysiau.
- Mae gwaith yn parhau ar weithredu Glasbrint Diogelu pum mlynedd TrC sy'n cynnwys amrywiaeth o weithgareddau ar draws y sefydliad. Croesawodd y Bwrdd y brif flaenoriaeth o drefn ailwirio achlysurol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer cydweithwyr perthnasol a'r gadwyn gyflenwi.
- Mae'n debygol y bydd yr adroddiad terfynol ar ddigwyddiad Talerddig yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Mae gwaith yn parhau i geisio deall holl achosion posibl tu ôl i'r digwyddiad.

**4. Cofrestr risg strategol**
Mae pum risg newydd wedi cael eu hychwanegu at y risgiau lefel strategol: gwrthdaro yn y Dwyrain Canol; cyflenwad tanwydd; cyflwyno fflyd Class 398; cyflawni gorsafoedd Burns, a throsglwyddo cyfrifoldebau rheoli seilwaith i TrC. Bydd cynllun gweithredu ar gyfer y cyfeiriad i'w gymryd o ran fformat a phroses adrodd ar risg yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Mehefin.

*Gadawodd Lorenzo Visentin y cyfarfod*.

**5. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol**

Yn gyffredinol, mae perfformiad rheilffyrdd dros y cyfnod blaenorol yn dangos lefel dda barhaus o wasanaeth ar Linellau Craidd y Cymoedd a gwelliant graddol parhaus ar y rhan Cymru a'r Gororau. Ar gyfer cyfnod 1 hyd yma, mae'r perfformiad ar y targed ar gyfer Llinellau Craidd y Cymoedd ac ychydig bach oddi ar y targed ar gyfer Cymru a'r Gororau, sydd wedi cael ei effeithio gan nifer o faterion yn ymwneud â seilwaith, prinder fflyd, da byw ar y llinell a'r digwyddiad yn Ninbych-y-pysgod.

Mae gweithgarwch ar fasnachfreinio bysiau wedi dod yn ffocws cynyddol ar draws y sefydliad ac mae'n dod yn fwy penodol ac wedi'i dargedu wrth i'r camau gweithredol agosáu. Mae gwaith yn parhau i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y rhaglen. Nododd y Bwrdd fod statws RAG (Coch, Ambr a Gwyrdd) hefyd wedi cael ei roi ar waith ar gyfer y rhannau o raglenni masnachfreinio bysiau sydd y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol TrC.

Cododd problem newydd gyda phont groestoriad rhwng Caerdydd Canolog a Heol y Frenhines. Fel cynllun wrth gefn, mae'r profion yn cadarnhau y gall gweithrediadau fwrw ymlaen dros dro heb OLE wedi'i bweru ar Linell y Bae drwy ymestyn y defnydd o fatri Class 398.

Mae cyflwyno cerbydau Class 398 i'r gwasanaeth wedi symud ymlaen yn sylweddol. Atgoffwyd y Bwrdd bod cyflwyno Class 398 yn golygu galluogi rhaeadru'r fflyd, gyda'r Class 756 yn symud i reilffordd Rhymni.

Mae ymgysylltiad â Network Rail/GBR yn parhau, gan gynnwys drwy ddadlau dros gyflymu prosiectau sy'n ffocws Bwrdd Rheilffyrdd Cymru. Mae gwaith wedi dechrau ar achosion busnes ar gyfer y rownd gyllido nesaf mewn cydweithrediad â Network Rail. Nododd y Bwrdd yr heriau a'r cyfleoedd, gan gefnogi dull gweithredu'r Weithrediaeth, a phwysleisiodd yr angen i gyflawni gorsafoedd Burns yn effeithlon.

Nodwyd y canlynol gan y Bwrdd hefyd:

- Diwedd llwyddiannus i'r flwyddyn ariannol, gyda diolch i Heather Clash a'r Tîm Cyllid.
- Y broses a'r amserlen ar gyfer etholiadau nesaf y Senedd.
- Gweithio i gau bwlch cyllido 2026/27.
- Materion Class 197 ynghylch argaeledd unedau.
- Cais Llywodraeth Cymru am ragor o fanylion am y Strategaeth Cerbydau.
- Yr adroddiad diweddar ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau, sy'n dangos cynnydd cymysg.
- Gwneud gwell defnydd o fodelu trafnidiaeth i gael mwy o effaith ar system TrC a'r amgylchedd ehangach y mae TrC yn gweithredu ynddo.
- Risgiau o'r effaith o daro anifeiliaid sy'n crwydro a fydd yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Rheilffyrdd [**Cam gweithredu Jeremy Morgan**].

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid fod y system gyllid Gweithrediadau newydd wedi cael ei rhoi ar waith yn llwyddiannus. Trafodwyd perfformiad refeniw teithwyr gan nodi diffyg bach yn erbyn targedau ymestyn.

Cafodd y Bwrdd sicrwydd bod y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn ddiogel, bod llythyrau o gysur wedi dod i law ac wedi cael eu nodi, a bod gweithgarwch archwilio allanol ar fin dechrau.

Bu'r aelodau canmol y tîm cyllid am gynnal rheolaeth a gwydnwch drwy gyfnod cythryblus yn fyd-eang.

**6. Strategaeth pobl**

*Ymunodd Elle Elliott â'r cyfarfod*.

Cynhaliodd y Bwrdd drafodaeth fanwl ar y Strategaeth Pobl. Croesawodd yr aelodau pa mor eglur a chryno oedd y fframwaith strategol.

Roedd consensws cryf bod yn rhaid asesu diwylliant sefydliadol nid yn unig o ran canlyniadau ond hefyd o ran ymddygiadau. Pwysleisiwyd bod rôl rheolwyr canol yn hollbwysig wrth drosi gwerthoedd yn arfer o ddydd i ddydd.

Cytunodd y Bwrdd fod yn rhaid i'r Strategaeth Pobl weithredu fel lens sylfaenol ar gyfer yr holl strategaethau eraill, yn hytrach nag fel dogfen adnoddau dynol annibynnol. Ystyriwyd bod mynegiant clir o ymddygiad derbyniol ac annerbyniol, ochr yn ochr â chydnabod ymddygiad cadarnhaol, yn hanfodol.

Nodwyd heriau'r dyfodol, gan gynnwys:

- Rhoi disgwyliadau diwylliannol TrC ar waith o fewn trefniadau masnachfreinio bysiau.
- Integreiddio timau seilwaith a pheirianneg sydd â hen ddiwylliannau'r diwydiant i ffyrdd TrC o weithio.

*Gadawodd Elle Elliott y cyfarfod*.

**7. Gwybodaeth am gyfarfod gyda bwrdd y Grŵp Trafnidiaeth Drefol**

*Ymunodd Geoff Ogden â'r cyfarfod*.

Trafododd y Bwrdd berthynas TrC â'r Grŵp Trafnidiaeth Drefol. Nododd yr aelodau werth y Grŵp Trafnidiaeth Drefol fel fforwm ar gyfer dysgu ar y cyd, arweinyddiaeth meddwl a dylanwad sector cydlynol, gan gydnabod sefyllfa unigryw TrC fel cwmni sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru.

Cytunwyd bod ymgysylltu â'r Grŵp Trafnidiaeth Drefol yn darparu gwerth drwy siapio syniadau cenedlaethol, ymatebion i ymgynghoriadau a dadleuon polisi na allai TrC eu harwain yn hawdd ar ei ben ei hun.

**8. Cyfarfod gyda Bwrdd y Grŵp Trafnidiaeth Drefol**

Bu aelodau'r Grŵp Trafnidiaeth Drefol cwrdd â Bwrdd TrC i gael trafodaeth benodol ar Ddiwygio'r Rheilffyrdd a chyllid cynaliadwy.

Er bod trefniadau cyfansoddiadol a llywodraethu yn amrywio, roedd yr aelodau'n cydnabod bod buddiannau cyffredin o ran:

- Atebolrwydd lleol am ganlyniadau gwasanaethau
- Integreiddio ar draws wahanol ddulliau
- Eglurder wrth wneud penderfyniadau
- Cysoni gwasanaethau trafnidiaeth ag amcanion economaidd a chymdeithasol ehangach

Pwysleisiodd y drafodaeth nad yw aros am atebion cenedlaethol yn debygol o gyflawni cynnydd amserol, ac y dylai rhanbarthau ddiffinio a chyflwyno modelau gweithredu ymarferol i'r llywodraeth eu hystyried yn lle hynny.

Croesawodd y Cadeirydd y cyfle i ymgysylltu ag aelodau Bwrdd y Grŵp Trafnidiaeth Drefol a diolchodd iddynt am eu presenoldeb.

**9. Trafnidiaeth ranbarthol**

*Ymunodd Paul Chase, Ben George a Lee Robinson â'r cyfarfod*.

Cafodd y Bwrdd trosolwg eang o'r amgylchedd trafnidiaeth rhanbarthol presennol yng Nghymru gan nodi bod y system drafnidiaeth sy'n canolbwyntio ar deithwyr yng Nghymru yn symud o fod yn ddarniog i ddull mwy

strategol; y defnydd cynyddol o gyngor sy'n seiliedig ar dystiolaeth; mwy o feddwl rhagweithiol sy'n seiliedig ar rwydweithiau; a symud o ddull sy'n benodol i gynllunio system gyfan.

Ystyriodd y Bwrdd rôl esblygol TrC y tu hwnt i fod yn weithredwr trafnidiaeth yn unig, gan gynnwys ei allu cynyddol o ran data, gwybodaeth a chynllunio ar draws y system. Roedd yr enghreifftiau penodol a drafodwyd yn cynnwys:

- Gwybodaeth am ddata bysiau a'r defnydd o fysiau
- Integreiddio cynllunio rheilffyrdd a bysiau
- Defnyddio gwybodaeth am drafnidiaeth i lywio ystyriaethau o ran mynediad at gyflogaeth a defnydd tir

Byddai'r sgiliau a'r galluoedd hyn yn cael eu defnyddio i weithio ochr yn ochr â Chyd-bwyllgorau Corfforedig i helpu i ddatblygu eu cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol.

*Gadawodd Paul Chase, Ben George a Lee Robinson y cyfarfod.*

**10. Llywodraethu**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod diweddar Bwrdd Llywio TrC a oedd yn canolbwyntio ar Gymeradwyaethau Gweinidogol, diwygio rheilffyrdd, masnachfreinio bysiau, cyllid ac adroddiad bwrdd Prif Swyddogion Gweithredol TrC.

Cafodd y Bwrdd ddiweddariadau o gyfarfodydd bwrdd diweddar TrC Ffeibr, Rheilffyrdd TrC Cyf a Pullman Rail Ltd.

Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg (ARC) ar ailosod ffocws y pwyllgor, cryfhau'r her, gwaith dilynol a sicrwydd. Fe wnaeth y Bwrdd y canlynol:

- Cymeradwyo Cylch Gorchwyl wedi'u diweddaru y Pwyllgor Archwilio a Risg.
- Cymeradwyo'r protocol sy'n rheoli cyfranogiad is-gwmnïau ym mhroses gaffael fewnol TrC, gan gynnwys trefniadau cryfach o ran gwrthdaro rhwng buddiannau ac o ran waliau moesegol.

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg am archwiliadau mewnol diweddar a'r lefelau sicrwydd a ddarparwyd. Trafododd y Bwrdd yr angen am uwchgyfeirio clir o faterion systemig, gwelededd cryf ar lefel Weithredol, a dilyniant cadarn lle mae argymhellion yn codi dro ar ôl tro. Cytunwyd y bydd adroddiadau sydd â statws ambr a choch yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfodydd y Tîm Arwain Gweithredol **[Cam gweithredu Heather Clash]**.

Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Chynaliadwyedd ar yr angen i gydbwyso dangosyddion arweiniol ac oediog, bod pwysigrwydd diogelu yn parhau i fod wedi'i ddiffinio'n glir, a bod sensitifrwydd cyd-destunol ynghylch ymchwiliadau allanol parhaus. Pwysleisiodd y Bwrdd bwysigrwydd gonestrwydd, parodrwydd i graffu, a chysondeb â dyletswyddau statudol.

Trafododd y Pwyllgor Profiad a Thwf Cwsmeriaid diweddar ddatblygiad Strategaeth Profiad Cwsmeriaid ar ei newydd wedd gydag aelodau'r pwyllgor yn croesawu cynnydd. Heriodd y Bwrdd y rheolwyr i ddyrchafu'r strategaeth y tu hwnt i fetrigau traddodiadol gwasanaeth i gwsmeriaid, gan sicrhau ei bod yn cefnogi penderfyniadau gweithredol a masnachol, yn defnyddio gwybodaeth i ganfod achosion sylfaenol ac yn dylanwadu ar ddylunio gwasanaethau ar draws pob dull. Nodwyd pwysigrwydd data integredig gan ganolfannau cyswllt, sianeli digidol a chyfryngau cymdeithasol.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a chaeodd y cyfarfod.